**WHC/2022/002**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWYBODDAETH/GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR AT BROFFESIYNOLION IECHYD**

**Teitl:** Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru: Rhaglen Dreigl Flynyddol 2022/23

**Dyddiad Cyhoeddi:** Ebrill 2023

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Awdurdodau Iechyd Arbennig
Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol

**Er gwybodaeth:**
Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol
Cyfarwyddwyr Therapïau

**Angen gweithredu erbyn:** Amh.

**Anfonydd:** Dr Frank Atherton, Y Prif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
*Is-adran Iechyd Poblogaethau, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: PopulationHealthcare@llyw.cymru*

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru: Rhaglen Dreigl Flynyddol o 2022/23

**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

10 Mehefin 2022

Annwyl Gydweithwyr,

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig perthnasol yng Nghymru gymryd rhan lawn yn yr holl archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau o ganlyniadau a restrir yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu copi o'r Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau ar gyfer 2022/23, a fydd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cynllun-archwilio-clinigol-cenedlaethol-ac-adolygu-canlyniadau-2022-i-2023

Mae archwiliadau clinigol cenedlaethol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth sydd â'r nod o fesur a meincnodi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Defnyddir y data archwilio i asesu ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau a gall wneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, o'u cyplysu â chamau gwella addas. Mae'n hanfodol bod pob rhan o GIG Cymru yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen genedlaethol.

Mae'r Cynllun yn manylu ar rôl pob un ohonom yn y gwaith hwn ac mae'n cynnwys y rhestr o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau, y mae'n rhaid i bob sefydliad gofal iechyd gymryd rhan lawn ynddynt pan fyddant yn darparu'r gwasanaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cynllun blynyddol, cysylltwch â: wgclinicalaudit@llyw.cymru.

Yn gywir

**DR FRANK ATHERTON**